Department for Business, Energy & Industrial Strategy

20 Medi 2016

Annwyl Syr/Madam,

**DEDDF TRYDAN 1989 A DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**RHEOLAU GORSAFOEDD CYNHYRCHU TRYDAN A LLINELLAU UWCHBEN (GWEITHDREFN YMCHWILIADAU) (CYMRU A LLOEGR) 2007**

**AILBENDERFYNU AR Y CAIS GAN RES UK & IRELAND LIMITED ("RES") DYDDIEDIG 27 MAWRTH 2009 AM GANIATÂD I ADEILADU A GWEITHREDU GORSAF GYNHYRCHU Â THYRBINAU GWYNT 100MW YM MHOWYS, CANOLBARTH CYMRU ("LLANBRYNMAIR")**

**AILBENDERFYNU AR Y CAIS GAN RWE NPOWER RENEWABLES LIMITED ("RWE") DYDDIEDIG 11 RHAGFYR 2008 AM GANIATÂD I ADEILADU A GWEITHREDU GORSAF GYNHYRCHU Â THYRBINAU GWYNT 130-250MW YM MHOWYS, CANOLBARTH CYMRU ("CARNEDD WEN")**

**Gwahoddir y partïon sydd â buddiant yn hyn o beth i gyflwyno sylwadau ar y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r Datganiad o Faterion a gyhoeddwyd ar 6 Gorffennaf 2016**

Anfonwyd Datganiad o Faterion at y partïon sydd â buddiant yn hyn o beth ar 6 Gorffennaf 2016 gan wahodd sylwadau ar y ceisiadau am ganiatâd cynllunio o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 i orsafoedd cynhyrchu â thyrbinau gwynt yn Llanbrynmair a Charnedd Wen ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("y Datblygiadau arfaethedig"), sydd i'w hailbenderfynu yn unol â Rheolau Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan a Llinellau Uwchben (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru a Lloegr) 2007 ("y Rheolau Ymchwiliadau")[1].

Mae'r holl sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r Datganiad o Faterion ar gael i'w harchwilio ar wefan GOV https://www.gov.uk/guidance/consents-and-planning-applications-for-national-energy-infrastructure-projects .

[1] Ar gael yn http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090608144944/opsi.gov.uk/si/si2007/pdf/uksi_20070841_en.pdf

Bellach mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi cyfle i'r partïon sydd â buddiant gyflwyno sylwadau ar y sylwadau hynny a ddaeth i lawn mewn perthynas â'r Datganiad o Faterion.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ar y sylwadau blaenorol wneud hynny naill ai mewn copi caled neu drwy'r ebost **erbyn 4 Hydref 2016 fan bellaf.** Byddwch cystal â chyfeirio sylwadau ysgrifenedig at:

Energy Infrastructure Planning Team,
Department for Business, Energy and Industrial Strategy,
Area C 4th Floor,
3 Whitehall Place,
London SW1A 2AW

ebost: deccnic@decc.gsi.gov.uk

Mae'n bwysig bod y partïon sydd â buddiant yn egluro pa gais am fferm wynt y cyfeirir ato (hynny yw, Llanbrynmair, Carnedd Wen neu'r ddau).

Ar ôl cwblhau'r cyfnod ymgynghori ychwanegol hwn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried yr holl sylwadau sydd wedi dod i law, y sylwadau ar y sylwadau blaenorol a'r wybodaeth arall sy'n berthnasol, gan gynnwys yr wybodaeth sydd eisoes ar gael,[2] ac mae'n rhagweld y bydd mewn sefyllfa i naill ai: i) ailbenderfynu ar y ceisiadau ar sail y sylwadau ysgrifenedig a'r wybodaeth sydd wedi dod i law; neu ii) penderfynu ailagor yr ymchwiliad cyhoeddus.

Yn gywir,

*Giles Scott*

**Giles Scott**
**Pennaeth Caniatadau Seilwaith Cenedlaethol a Rhwymedigaethau Glo**

[2] Mae'r dogfennau a ddarparwyd yn ystod proses yr ymchwiliad cyhoeddus ar gael i'w gweld yn http://bankssolutions.co.uk/powys/ .
Mae dogfennau'r penderfyniadau ar y ceisiadau yn y Canolbarth, gan gynnwys Adroddiad yr Arolygydd, ar gael yn https://itportal.decc.gov.uk/EIP/pages/projects/MidWalesPI.htm
ond sylwch: gan fod y penderfyniadau ynghylch y Datblygiadau arfaethedig wedi'u diddymu, nid yw'r llythyrau penderfynu ynghylch Llanbrynmair a Charnedd Wen yn berthnasol i ailbenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y ceisiadau.